# Datblygu a chymhwyso sgiliau marchogaegth mewn ras

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a chymhwyso sgiliau marchogaeth mewn ras. Mae'n cynnwys marchogaeth ceffylau rasio mewn rasys wedi eu rheoleiddio, o dan drwydded, naill ai fel joci neidio neu joci gwastad.

Mae'r safon hefyd yn cynnwys datblygu dealltwriaeth a chymhwyso'r rheolau a'r rheoliadau i fod yn joci proffesiynol.

Mae'r safon yn cynnwys deall strwythur sylfaenol y diwydiant, prif gyfrifoldebau sefydliadau allweddol a sut mae'r cydrannau'n cydweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. nodi a chytuno ar raglen i ddatblygu sgiliau marchogaeth mewn ras
3. gweithredu rhaglen hyfforddiant i ddatblygu a gwella sgiliau marchogaeth mewn ras
4. cymhwyso sgiliau marchogaeth mewn ras mewn rasys wedi eu rheoleiddio, o dan drwydded
5. gwerthuso'r sgiliau marchogaeth mewn ras i wella eich perfformiad chi a'r ceffyl yn y dyfodol
6. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i nodi a chytuno ar raglen i ddatblygu sgiliau marchogaeth mewn ras
3. sut i weithredu rhaglen hyfforddiant er mwyn datblygu a gwella sgiliau marchogaeth mewn ras
4. sut i gymhwyso sgiliau marchogaeth mewn ras mewn rasys wedi eu rheoleiddio, o dan drwydded
5. sut i werthuso'r sgiliau marchogaeth mewn ras i wella eich perfformiad chi a'r ceffyl yn y dyfodol
6. y rheoliadau sydd yn gymwys i jocis i'w galluogi i ymddwyn yn broffesiynol yn eu camp
7. gorchmynion a rheolau rasio yn ymwneud â cheffylau rhedeg a rasio
8. strwythur sylfaenol y diwydiant, prif gyfrifoldebau sefydliadau allweddol a sut mae'r cydrannau'n cydweithio
9. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Datblygu a chymhwyso sgiliau marchogaegth mewn ras

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq343 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; jocis |